

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

GWEITHDREFN YMDDYGIAD MYFYRWYR

Rhagair.....	3
Disgwyliadau o ran ymddygiad.....	3
Cymhwyso'r weithdrefn hon	5
Troseddau.....	6
Mynegi pryder.....	6
Ymchwiliad i bryder	7
Mán bryderon: cyfarfod disgyblu a chanlyniadau.....	8
Pryderon mawr: Panel Ymddygiad Myfyrwyr	9
Ataliad rhagofalus.....	10
Gwahardd.....	11
Cais am adolygiad.....	11

1. Rhagair

1.1 Fel aelodau o gymuned y Brifysgol, disgwylir i bob myfyriwr weithredu yn unol â safonau ymddygiad y Brifysgol. Gan hynny, byddwch yn:

- Cynrychiolydd o'r Brifysgol a gweithredu'n unol â hynny;
- Gweithredu yn unol â Rheoliadau a Pholisïau'r Brifysgol;
- Trin pobl eraill ag urddas a pharch;
- Cynnal y safonau disgwyledig o ran ymarfer academaidd, uniondeb, ac ymgysylltu.

Os byddwch yn ymddwyn mewn ffordd yr honnir nad yw'n bodloni'r disgwyliadau hyn, byddwn yn ymchwilio i'r honiad ac yn mynd i'r afael ag ef drwy ddefnyddio'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrrwyr hon.

1.2 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bob un o fyfyrwyr cofrestredig y Brifysgol pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau'r Brifysgol naill ai ar neu oddi ar safle'r Brifysgol, neu pan fydd eu gweithredoedd yn ymyrryd â gweithgareddau academaidd neu weinyddol y Brifysgol neu'n cael effaith ar gymuned ehangach y Brifysgol neu ar enw da'r Brifysgol.

2. Disgwyliadau o ran ymddygiad

2.1 Fel myfyriwr mae disgwyl i chi:

- Bod yn gynrychiolydd o'r Brifysgol a gweithredu'n unol â hynny; Mae hyn yn berthnasol yn unrhyw le ac ar unrhyw adeg, ond mae'n arbennig o bwysig yn y gymuned leol o amgylch Caerdydd, tra ar waith maes, ar astudiaethau eraill i ffwrdd o'r Brifysgol, yn ymgysylltu neu'n cynrychioli eich clwb neu gymdeithas ar neu oddi ar y maes chwaraeon, neu wrth ymwneud ag unrhyw weithgarwch arall sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol.
- Cydymffurfio â holl weithdrefnau eraill y Brifysgol sy'n ymwneud ag ymddygiad gan gynnwys Rheoliadau TG, Llyfrgell, a Chyllid.
- Trin pobl eraill gydag urddas a pharch:
 - Cydnabod amrywiaeth cymuned Caerdydd a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn eraill ar sail eu hoed, eu tarddiad ethnig, eu hil, eu cenedligrwydd, eu haelodaeth o leiafrif cenedlaethol, diwylliant, iaith, ffydd grefyddol neu ymlyniad neu ddiffyg ymlyniad, ymlyniad neu farn wleidyddol neu ddiffyg ymlyniad neu farn, rhyw, rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd, rhywioldeb, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, cyfrifoldebau gofalu neu rieni, salwch, gallu neu anabledd, statws iechyd meddwl, cyflwr meddygol, ymddangosiad corfforol, nodweddion genetig, statws myfyriwr llawn amser neu ran-amser, rhieni, tras, cefndir economaidd-gymdeithasol, statws cyflogaeth, ymlyniad undebol, neu euogfarnau troseddol amherthnasol neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall.

- Ymddwyn yn gyfrifol, a bod yn onest, yn ystyriol, yn barchus ac yn gwrtais tuag at eraill, gan barchu diogelwch a lles pobl eraill ar neu i ffwrdd o safle'r Brifysgol.
- Ymddwyn mewn modd parchus tuag at eraill fel nad ydynt yn teimlo fel yr aflonyddir arnynt neu eu bod yn cael eu bwlio.
- Ymddwyn mewn modd sy'n sicrhau nad ydych yn tarfu ar weithgareddau'r Brifysgol nac yn rhwystro unrhyw fyfyrwr, aelod o staff, nac ymwelydd i'r Brifysgol wrth gyflawni eu hastudiaeth neu waith.
- Sicrhewch nad ydych yn cyhoeddi sylwadau neu ddelweddau ar wefannau neu gyfryngau cymdeithasol a allai achosi tralod neu dramgwydd i rywun arall.
- Parchu hawl pobl eraill i fwynhau eu heiddo, gan gynnwys eiddo'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr, neu ddefnydd o ofod cyhoeddus.
- Gweithredu'n unol â rheoliadau a pholisïau'r Brifysgol rydych yn cytuno â nhw wrth gofrestru fel myfyriwr gyda'r Brifysgol, ac sydd, pan fo'n berthnasol, yn bodloni gofynion y Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio sy'n gysylltiedig â'ch rhaglen.
- Cydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol i gwrdd ag aelod o staff y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr pan fo'r cais yn ymwneud â busnes y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr.
- Darparu gwybodaeth gywir adeg ymrestru ac wrth wneud taliadau ariannol.
- Darparu gwybodaeth gywir i staff y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr pan ofynnir am hynny.
- Cario eich cerdyn myfyriwr gyda chi bob amser a pheidio â chaniatáu i berson arall ei ddefnyddio.
- Sicrhau nad ydych yn rhannu nac yn cyhoeddi deunydd academiaidd sy'n gysylltiedig â'ch dysgu ac addysgu heb ganiatâd y Brifysgol: ni ddylech rannu na chyhoeddi, drwy wefannau rhwydweithio cymdeithasol, rhaglenni rhannu ffeiliau, neu unrhyw ddull arall, unrhyw ddeunydd a ddarperir at ddibenion eich dysgu heb ganiatâd ysgrifenedig penodol yr aelod o staff academiaidd a gynhyrchodd neu a gyflwynodd y deunydd hwnnw. Nodwch nad yw hyn yn atal rhannu deunydd gyda chyd-fyfyrwyr y Brifysgol o fewn paramedrau arferol rhaglen academiaidd.
- Osgoi ymddygiad a allai fod yn drosedd.

- Adrodd i'r tîm Achosion Myfyrwyr am unrhyw droseddau difrifol sy'n arwain at ymchwiliad gan yr heddlu, rhybudd, euogfarn, neu gyhuddiad yn ymwneud â throsedd berthnasol. Dylai'r adroddiad gael ei wneud o fewn 14 diwrnod.
- Cadw egwyddorion ac arfer [Rhyddid i Iefaru](#), rhyddid mynegiant, a rhyddid academaidd.
- Defnyddio gweithdrefnau priodol y Brifysgol i godi materion yn ffurfiol.

3. Cymhwyso'r weithdrefn hon

- 3.1 Bydd pob myfyriwr yn cael ei drin modd cyfartal a theg.
- 3.2 Bydd myfyrwyr yn cael gwybod sut i gymryd rhan yn y broses a sut i gael cyngor a chymorth annibynnol gan [Wasanaeth Cyngor i Fyfyrwyr Undeb y Myfyrwyr](#).
- 3.3 Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'r effaith y gall y broses ddisgyblu ei chael ar fyfyrwyr yr honnir eu bod wedi cyflawni camymddygiad ac ar y rhai sy' n adrodd amdano, ac yn annog pob myfyriwr i ofyn am gyngor a chymorth gan y tîm [Cefnogi a Lles Myfyrwyr](#).
- 3.4 Os ydych chi'n fyfyrwr anabl a bod angen addasu'r weithdrefn hon i'ch galluogi i gymryd rhan yn llawn â'r broses, cysylltwch â [Phennaeth y Gofrestrfa](#) i drafod unrhyw addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud i'ch helpu i gymryd rhan.
- 3.5 Gellir ymchwilio i ymddygiad myfyrwyr yr honnir ei fod yn mynd yn groes i ddisgwyliadau'r Brifysgol o ran ymddygiad ac, os yw'n briodol, gellir ystyried ei fod yn bryder mawr neu fach sy'n arwain at gamau disgyblu o dan y weithdrefn hon.
- 3.6 Bydd dulliau adferol a/neu gyfryngu ar gael pan fo'n briodol.
- 3.7 Caiff yr holl wybodaeth bersonol a sensitif ei thrin yn gyfrinachol a'i rhannu dim ond fel rhan o waith prosesu'r achos y caiff ei rhannu gyda staff. Weithiau, mae'n bosibl y bydd angen rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu ac awdurdodau eraill. Os yw hyn yn wir, gwneir hyn er budd diogelwch a lles myfyrwyr a'r gymuned ehangach ac yn unol â Gweithdrefn Rhannu Gwybodaeth y Brifysgol a pholisi Diogelu Data priodol.
- 3.8 Ni chaiff cosb neu ddyfarniad ei osod nes i'r broses orffen. Fodd bynnag, yn achos honiadau difrifol, neu os canfyddir risg mewn perthynas â'ch diogelwch a'ch lles chi neu les pobl eraill, gall y Brifysgol wneud y penderfyniad i'ch atal o'ch astudiaethau tra'n aros am ganlyniad y broses (gweler adran 9).
- 3.9 Pan fydd grŵp o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgaredd y mae'n bosibl ei fod yn torri'r cod disgyblu, bydd y Brifysgol yn penderfynu a gaiff achosion eu hystyried yn unigol neu fel grŵp. Os ystyrir yr achos fel grŵp, cynhelir y

cyfarfodydd ymchwilio yn unigol, gall y Panel Ymddygiad Myfyrwyr gynnal y gwrandawriad ar y cyd, a rhoddir cyfle i bob myfyriwr gyflwyno ffactorau lliniarol yn breifat i'r Panel.

4. Troseddau

- 4.1 Bydd y Brifysgol yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau cyfreithiol i roi gwybod i'r heddlu am droseddau.
- 4.2 Bydd y Brifysgol yn cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu neu ymchwiliad statudol pan fydd ymchwiliad i drosedd ddifrifol.
- 4.3 Gall y Brifysgol gymryd camau o dan y weithdrefn hon mewn perthynas â chamymddygiad a allai hefyd fod yn drosedd, neu gall atal gweithredu o dan y weithdrefn hon tan canlyniad ymchwiliad gan yr heddlu ac unrhyw achos troseddol.
- 4.4 Caiff y Brifysgol gymryd camau o dan y weithdrefn hon yn dilyn hysbysiad o gollfarn droseddol myfyriwr os yw'n gysylltiedig â mater difrifol, neu pan ganfyddir risg mewn perthynas â diogelwch a lles y myfyriwr neu eraill, a/neu os yw'r myfyriwr yn astudio ar raglen sy'n ddarostyngedig i ofynion corff proffesiynol, statudol a rheoleiddiol.
- 4.5 Bydd y Brifysgol yn ystyried unrhyw ddedfrydau neu gosbau a osodwyd gan lys ond yn cadw'r hawl i weithredu o dan y weithdrefn hon ac yn gwneud penderfyniad ar sail y cydbwysedd tebygolrwydd.

5. Mynegi pryder

- 5.1. Os ydych yn fyfyriwr ac yn dymuno mynegi pryder am ymddygiad myfyriwr arall, dylid codi'r pryder yn unol â'r drefn a nodir yn y [Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr](#).
- 5.2. Os ydych yn aelod o staff a'ch bod am fynegi pryder am ymddygiad myfyriwr, dylid codi'r pryder gyda Phennaeth Ysgol neu Adran y Myfyriwr fel sy'n briodol. Bydd y tîm Achosion Myfyrwyr yn rhoi cyngor i Benaethiaid Ysgol neu Adrannau ynglŷn â'r weithdrefn i'w dilyn. Caiff pob gohebiaeth am unrhyw gamau gweithredu dilynol gan y Brifysgol eu darparu i Bennaeth yr Ysgol neu'r Adran, sy'n gyfrifol am sicrhau bod staff priodol yn cael y manylion diweddaraf yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data.
- 5.3. Pan godir pryder, bydd y Pennaeth Achosion Myfyrwyr yn ystyried a yw'n briodol ymchwilio o dan y weithdrefn hon, neu a ddylid cyfeirio'r achos i'w ymchwilio o dan un arall o weithdrefnau'r Brifysgol. Mae'n bosibl y bydd y Pennaeth Achosion Myfyrwyr yn penderfynu na chymerir unrhyw gamau ffurfiol ond y dylid rhoi'r cyfle i'r myfyriwr wneud ymrwymiad ffurfiol am ei ymddygiad yn y dyfodol drwy lofnodi cytundeb ymddygiad. Fel arall, gellir cynnig cyfryngu neu ateb adferol fel ffordd o ddatrys y pryder. Byddwch yn

gallu siarad ag aelod o'r tîm Achosion Myfyrwyr am yr hyn sydd ynghlwm â hyn cyn i chi benderfynu a ydych am gytuno ai peidio.

- 5.4. Pan fydd y Pennaeth Achosion Myfyriwr yn penderfynu awdurdodi ymchwiliad o dan y weithdrefn hon, bydd yn penodi Swyddog Ymchwilio trwy ymgynghoriad â Phennaeth yr Ysgol (gellir gwneud hyn ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr hefyd os yw'n berthnasol i natur y honiad).
- 5.5. Os byddwch yn nodi pryder yr ymchwilir iddo, mae'n bosibl y gofynnir i chi gyfarfod â'r Swyddog Ymchwilio (gweler isod) fel tyst i roi tystiolaeth. Weithiau, mae'n rhaid i fyfyriwr fynychu gwrandawriad panel fel tyst. Bydd hyn yn cael ei reoli mewn modd sensitif er mwyn ichi gael eich diogelu yn eich rôl fel tyst. Cewch wybod am unrhyw ganlyniad sy'n ymwneud â'ch cwyn a/neu unrhyw gamau a gymerwyd sy'n effeithio arnoch chi a'ch profiad fel myfyriwr sy'n parhau.

6 Ymchwilio i bryder

- 6.2 Os bydd angen ymchwilio i honiad neu bryder, penodir swyddog ymchwilio annibynnol gan y Pennaeth Achosion Myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn darparu hyfforddiant i staff sy'n ymgymryd â rôl y Swyddog Ymchwilio er mwyn sicrhau yr ystyriar ffeithiau llawn yr achos.
- 6.3 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn archwilio ffeithiau'r digwyddiad y gwnaed adroddiad amdano drwy adolygu dogfennau a chyfweld â chi, â myfyrwyr, ac â thystion pan fo'n briodol (osgoir cyfnodau arholi ffurfiol sy'n cynnwys presenoldeb myfyrwyr yn yr ymchwiliad pan fydd modd).
- 6.4 Os cyfwelir â chi, byddwch yn:
 - Derbyn o leiaf 7 diwrnod o rybudd am y cyfarfod ymchwilio a chael gwybod am yr honiadau neu'r pryderon sy'n cael eu hystyried.
 - Bod â hawl i ddod â chyfaill neu gynrychiolydd gyda chi yn y cyfarfod; ni all hwn fod yn aelod o staff y Brifysgol (neu'n gynrychiolydd cyfreithiol). Gellir cael cyngor annibynnol gan [Wasanaeth Cynghori Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr](#).
 - Derbyn copi o nodiadau'r cyfweiliad a chael 7 niwrnod i roi gwybod i'r Swyddog Ymchwilio am unrhyw faterion neu bryderon a all fod gennych o ran cywirdeb y nodiadau.
- 6.5 Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd y Swyddog Ymchwilio yn llunio adroddiad yn cadarnhau ei ganfyddiadau ac yn atodi'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad i ategu ei ganfyddiadau.
- 6.6 Bydd y Pennaeth Achosion Myfyrwyr yn ystyried yr adroddiad ac yn cymryd 1 o'r camau canlynol:
 - Penderfynu nad oes angen cymryd camau pellach;

- Penderfynu y gall digwyddiad neu fater fod yn bryder bach, a gwahodd y myfyriwr sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad i gyfarfod disgyblu;
- Penderfynu y gall digwyddiad neu fater fod yn bryder mawr, a chyfeirio'r achos at y cofrestrwydd academaidd i gynnull Panel Ymddygiad Myfyrwyr.

6.7 Bydd y Pennaeth Achosion Myfyrwyr yn rhoi gwybod i chi ar ffurf ysgrifenedig am y penderfyniad o fewn 14 diwrnod ar ôl cael yr adroddiad ar yr ymchwiliad.

7 Mân bryderon: cyfarfod disgyblu a chanlyniadau

7.1 Bydd y Pennaeth Achosion Myfyrwyr yn eich gwahodd i gyfarfod disgyblu i ystyried y pryder bach honedig. Byddwch yn cael o leiaf 7 diwrnod o rybudd am y cyfarfod a byddwn yn rhoi gwybod i chi am yr honiad yn eich erbyn a rhoddir copi o adroddiad yr ymchwiliad a'r dystiolaeth ategol. Mae gennych hawl i ddod â chyfaill neu gynrychiolydd gyda chi i'r cyfarfod disgyblu; ni all hwn fod yn aelod o staff y Brifysgol (neu'n gynrychiolydd cyfreithiol).

7.2 Nid gwrandawriad ffurfiol yw'r cyfarfod disgyblu ond cyfle i chi ymateb i'r pryder a darparu manylion am unrhyw ffactorau lliniarol i'r Pennaeth Achosion Myfyrwyr. Os na fyddwch yn bresennol yn y cyfarfod disgyblu, mae'n bosibl y bydd y pennaeth achosion myfyrwyr yn ystyried yr achos yn eich absenoldeb.

7.3 Yn dilyn y cyfarfod disgyblu, gall y Pennaeth Achosion Myfyrwyr osod 1 neu fwy o'r canlyniadau canlynol:

- Dim camau pellach,
- Cynnig cyfryngu neu ateb adferol i'r rhai a wnaeth y gŵyn ac ymchwilio i'r myfyriwr/wyr,
- Rhybudd anffurfiol,
- Rhybudd ffurfiol a fydd yn aros ar eich cofnod am gyfnod penodol,
- Ymddiheuriad ysgrifenedig i berson neu grwp penodedig,
- Myfyrdod ysgrifenedig ar y drosedd a'i heffaith ar gymuned y Brifysgol,
- Mynnu presenoldeb mewn gweithdy addysgol a ariennir gennych chi,
- Taliad am unrhyw ddifrod a nodwyd i eiddo neu feddiannau,
- Cytundeb ymddygiad a fydd, os caiff ei dorri, yn arwain at gyfeiriad at Banel Ymddygiad Myfyrwyr.

7.4 Caiff y canlyniad ac unrhyw gosb ei gyfleu i chi o fewn 7 diwrnod i'r cyfarfod disgyblu.

7.5 Fe'ch hysbysir o'ch hawl i ofyn am adolygiad fel y nodir isod (adran 11).

8 Pryderon mawr: Panel Ymddygiad Myfyrwyr

8.1 Pan benderfynir y gall fod bod digwyddiad fod yn bryder mawr, bydd y Cofrestrydd Academaidd yn cynnull Panel Ymddygiad Myfyrwyr i ystyried y digwyddiad ac adroddiad y Swyddog Ymchwilio.

8.2 Fel arfer bydd y Panel yn cyfarfod o fewn **28 diwrnod** i'r penderfyniad. Bydd y Panel yn cynnwys yr aelodau canlynol sydd wedi'u hyfforddi ac sydd heb unrhyw wybodaeth flaenorol am yr achos:

- Uwch Reolwr fel Cadeirydd (Pennaeth Ysgol, Dirprwy Is-Ganghellor, Deon, neu Gyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaethau Proffesiynol);
- Aelod o staff y Brifysgol;
- Swyddog etholedig o Undeb y Myfyrwyr.

8.3 Bydd aelod o'r tîm Achosion Myfyrwyr yn cefnogi'r panel ac, o leiaf 14 diwrnod cyn y Panel, bydd yn rhoi gwybod i chi ynghylch y canlynol:

- Manylion y pryder neu'r honiad,
- Y dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno i'r Panel a'i hystyried ganddo,
- Dyddiad, amser a lleoliad cyfarfod y Panel,
- Eich hawl i gael eich cefnogi neu eich cynrychioli yn y Panel,
- Eich hawl i'r panel gael ei gynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg.

8.4 Mae'n rhaid i chi gadarnhau a fyddwch yn bresennol ac enw unrhyw un arall a fydd yn dod gyda chi i'r gwrandawriad a chyflwyno unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth yr hoffech i'r Panel ei hystyried **o leiaf 7 diwrnod cyn** dyddiad y panel.

8.5 Os codir pryder gan unrhyw un o'r partiön sy'n ymwneud â mynychu panel, bydd y Pennaeth Achosion Myfyrwyr yn ymgynghori â'r panel a'r myfyriwr i ystyried a yw'n briodol gwneud trefniant arall. Mae'n rhaid i ystyriaeth yr achos ddilyn y broses ffurfiol ac egwyddorion tryloywder.

8.6 Bydd ystyriaeth yr achos yn dilyn y broses ffurfiol a defnyddir egwyddorion proses agored a thryloyw. Yn y Panel Ymddygiad Myfyrwyr:

- Bydd pob parti yn cael gweld yr holl bapurau ar gyfer cyfarfod y panel cyn cynnal y cyfarfod;
- Bydd y Swyddog Ymchwilio yn cyflwyno ffeithiau'r achos yn erbyn y myfyriwr, gan alw tystion fel sy'n briodol;
- Yna, byddwch chi neu'ch cynrychiolydd yn cael gwahoddiad i gyflwyno ymateb, a galw tystion fel sy'n briodol yn eich tyb chi. Cewch gyflwyno unrhyw ffactorau lliniarol yr hoffech eu dwyn i sylw'r panel;
- Pan fo tystion yn cael eu galw gan y naill barti neu'r llall, cânt eu gwahodd i roi tystiolaeth am y ffeithiau y maent yn dyst iddynt;

- Bydd pob parti yn cael cyfle i godi unrhyw gwestiynau am y ffeithiau neu am ddatganiadau a wnaed gan dystion ar adegau priodol yn ystod y cyfarfod. Caiff yr holl gwestiynau eu cyfeirio at Gadeirydd y panel.
- Ar ôl i'r holl dystiolaeth gael ei chyflwyno ac ar ôl gofyn yr holl gwestiynau, gwahoddir y Swyddog Ymchwilio i grynhoi ei achos;
- Ar ddiwedd y cyfarfod, byddwch chi neu'ch cynrychiolydd yn cael cyfle i grynhoi eich achos.

Bydd y ddau barti wedyn yn ymneilltuo o'r cyfarfod er mwyn i'r panel ystyried yr achos mewn cyfarfod preifat.

8.7 Bydd y Panel yn ystyried yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth a gyflwynir iddo er mwyn penderfynu a yw'r prif bryder wedi'i brofi ar gydbwysedd tebygolrwydd. Gall y Panel osod 1 neu ragor o'r cosbau canlynol, gan ystyried cymesuredd y tramgwydd sy'n cael ei ystyried ac unrhyw ffactorau lliniaru a gyflwynir gan y myfyriwr:

- Unrhyw rai o ganlyniadau'r mân bryderon a restrir uchod (adran 7);
- Mynediad cyfyngedig i fangre neu gyfleusterau'r Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr, gyda hyd a lled a hyd y cyfyngiad yn cael ei nodi;
- Gwaharddiad dros dro o'r Brifysgol, am gyfnod penodedig;
- Gwaharddiad parhaol o'r Brifysgol.

8.8 Bydd penderfyniad y panel a'r rhesymau drosto yn cael eu hanfon atoch ar ffurf ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod.

9 Ataliad rhagofalus

9.1 Bydd y Cofrestrydd Academaidd, sy'n gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig yr Is-Ganghellor, yn ystyried gwahardd myfyriwr dros dro tra'n aros am ganlyniad y broses ddisgyblu a/neu ddiwedd unrhyw achos troseddol os ydynt o'r farn ei fod er lles diogelwch y myfyriwr, myfyriwr arall neu gymuned y Brifysgol. Bydd y Cofrestrydd Academaidd yn cynnal asesiad risg, gan ystyried ffeithiau'r achos, gan gynnwys unrhyw sylwadau a wnaed gan y myfyriwr neu ei gynrychiolydd.

9.2 Nid yw gwahardd dan yr amgylchiadau hyn yn awtomatig nac yn cael ei osod fel cosb.

9.3 Cewch eich hysbysu o'r penderfyniad i ohirio a'r rhesymau dros atal y gwaharddiad o fewn 7 diwrnod ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud. Os ydych yn dymuno herio'r penderfyniad i'ch atal o'ch astudiaethau, dylech gyflwyno cais am adolygiad o dan Weithdrefn Adolygu'r Brifysgol.

9.4 Os cewch eich gwahardd, ni fyddwch yn gallu mynd i ddigwyddiadau astudio a dysgu, ac mae'n bosibl na fydd gennych fynediad i adeiladau, cyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y pryder dan sylw. Caiff unrhyw gyfyngiadau a osodir eu cyfleu i chi.

9.5 Caiff gwaharddiad ei adolygu o leiaf bob 60 diwrnod, neu pan fydd gwybodaeth berthnasol newydd yn dod ar gael i'w hystyried fel rhan o'r ymchwiliad, os yw hynny'n gynt. Cewch wybod am unrhyw newidiadau i'r gwaharddiad dros dro neu ei amodau o fewn 7 niwrnod i'r adolygiad.

10 Gwahardd

10.1 Mae gan yr Is-Ganghellor y pŵer i wahardd myfyriwr yn syth ac yn barhaol pan fydd angen cymryd y camau hyn ar sail yr holl wybodaeth sydd ar gael ar adeg ei ystyried. Gall yr Is-Ganghellor hefyd ddefnyddio'r pŵer hwn pan fydd gan y Brifysgol sail i gredu bod myfyriwr cofrestredig wedi cael lle ar sail gwybodaeth ffug, anghywir, neu gamarweiniol.

10.2 Bydd yr Is-Ganghellor yn derbyn:

- adroddiad gan Swyddog Ymchwil (a benodwyd gan y Cofrestrydd Academaidd) a thystiolaeth ategol;
- datganiad ysgrifenedig neu dystiolaeth gan y myfyriwr (os cafodd ei dderbyn);
- tystiolaeth briodol arall.

10.3 Cewch eich hysbysu o'r gwaharddiad ar ffurf ysgrifenedig o fewn **7 niwrnod** i'r penderfyniad. Bydd y cyfathrebiad yn cynnwys y rhesymau dros y gwaharddiad a'ch hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad o dan Weithdrefn Adolygu'r Brifysgol.

11 Cais am adolygiad

11.1 Cewch ofyn am adolygiad o benderfyniad a wneir o dan y weithdrefn hon. Os hoffech wneud cais am adolygiad, dylech gyfeirio at [Weithdrefn Adolygu'r Brifysgol](#) a sicrhau y gwneir unrhyw gais o fewn yr amserlen a bennir.

11.2 Gall yr adolygydd wrthod yr achos, cyfeirio'r achos yn ôl i'r Panel i'w ystyried ymhellach, neu ddarparu penderfyniad arall.